

Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Deisebau dan y teitl Y Troad Terfynol? P-06-1253 Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i sicrhau safonau lles uchel i bob anifail, ar bob cam o'u bywydau. Mae gennym rai o'r safonau uchaf yn y byd ac rydym yn cymryd lles anifeiliaid o ddifrif.

Nid yw rasio milgwn yng Nghymru yn cael ei reoli, yn wahanol i Loegr lle mae traciau annibynnol yn ddarostyngedig i Reoliadau Lles Milgwn Rasio 2010 ac mae traciau sydd wedi'u cofrestru gyda Bwrdd Milgwn Prydain Fawr (GBGB) yn destun hunan-reoleiddio achrededig UKAS.

Mae gan Gymru un trac milgwn o dan berchnogaeth breifat (the Valley Greyhound Stadium, Ystrad Mynach), sydd fel arfer yn cynnal rasys yn wythnosol.

Mae bwriad i uwchraddio'r trac cyn dod yn drac cofrestredig GBGB o dan berchnogaeth newydd. Awgrymir, o dan y drefn hon, y bydd y rasio yn cynyddu'n sylweddol. Mae cofrestru o dan safonau diwydiant GBGB yn debygol o arwain at well safonau lles. Ond mae sefydliadau lles wedi mynegi pryderon y gallai'r cynnydd yn nifer y cyfarfodydd rasio arwain at gynnydd yn nifer y cŵn ac anafiadau.

Yn 2019, sicrhodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer Cynllun Cyflenwi Partneriaeth i alluogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i gynnal archwiliadau lles yn y Valley Greyhound Stadium. Y nod oedd hwyluso archwiliadau o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 a'r Cod Ymarfer Gwirfoddol ar gyfer Lles Milgwn Rasio (a gynhyrchir gan Rwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru). Cynhaliodd Swyddogion Iechyd Anifeiliaid, a oedd yn cynnwys cyn-Arolygydd profiadol o'r RSPCA wyth archwiliad mewn digwyddiadau rasio a gynhaliwyd ar nosweithiau Sadwrn rhwng 2020 a 2022. Ar y tri achlysur roedd arbenigwr milfeddygol gyda'r swyddogion, ac ni chafodd unrhyw faterion difrifol yn ymwneud â lles anifeiliaid eu cofnodi yn dilyn yr archwiliadau hyn.

Rwyf wedi cwrdd â sefydliadau lles, Bwrdd Milgwn Prydain Fawr a pherchennog Valley Stadium.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am eu Hadroddiad ar rasio milgwn yng Nghymru. Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion yr Adroddiad isod.

Nodir isod ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad:

Argymhelliad 1

1. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i ystyried trwyddedu rasio milgwn fel rhan o'i Chynllun Lles Anifeiliaid. Byddem yn annog blaenoriaethu'r gwaith hwnnw.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Rydym yn bwriadu ymgynghori ar gynigion ar gyfer trwyddedu gweithgareddau sy'n cynnwys anifeiliaid yn ddiweddarach eleni. Bydd yr ymgynghoriad hefyd yn holi barn am sut i wella lles milgwn rasio yng Nghymru.

Argymhelliad 2

Mae mwyafrif Aelodau'r Pwyllgor yn credu y dylai camau gweithredu Llywodraeth Cymru gynnwys gwaharddiad graddol ar rasio milgwn yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Bydd cwestiwn sy'n ystyried gwaharddiad graddol yn cael ei gynnwys yn yr ymgynghoriad. Ni ellir rhagweld canlyniad yr ymgynghoriad a pha gamau fydd yn cael eu cymeryd.

Argymhelliad 3

Gall gyrfa rasio milgi fod yn rhan fer o'i fywyd. Ni ddylai camau gweithredu Llywodraeth Cymru i wella lles anifeiliaid gael eu cyfyngu i waharddiad ar rasio – fel strategaeth y diwydiant ei hun, dylai ystyried oes gyfan cŵn, a'r amodau y cânt eu cadw ynddynt cyn ac ar ôl eu gyrfaoedd rasio. Byddai hyn yn cynnwys cyflwr cŵn yn teithio drwy Gymru ar eu ffordd i rasys

Ymateb: Derbyn

Mae'n ofynnol i geidwaid milgwn gydymffurfio â Deddf Lles Anifeiliaid 2006 a Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007.

Hefyd, mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Lles Cŵn yn berthnasol i bob ci, gan gynnwys milgwn. Bwriad y Cod yw annog pawb sy'n gyfrifol am gŵn i fabwysiadu'r safonau uchaf. Mae'n esbonio beth sydd angen i berson ei wneud i gyrraedd y safonau gofal y mae'r gyfraith yn gofyn amdanynt. Os ydych yn berchen ar neu'n gyfrifol am filgwn mae gennych ddyletswydd gyfreithiol i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod eu hanghenion lles yn cael eu diwallu.

Mae lles anifeiliaid wrth gael eu cludo yn cael ei warchod gan Orchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007. Mae'n drosedd cludo unrhyw anifail mewn ffordd sy'n achosi, neu'n debygol o achosi, anaf neu ddioddefaint diangen i'r anifail hwnnw. Rhaid i geidwaid, neu'r person cyfrifol awdurdodedig, sy'n cludo milgwn, beth bynnag

yw hyd y daith, ddefnyddio arferion da gan gynnwys eu cadw yn ddiogel, sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi i ofynion iechyd a lles cyn, ac yn ystod y daith.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw newidiadau yn destun ymgynghoriad eang, a bod cyngor ar gael i'r rhai sy'n gweithio yn y diwydiant ar sut i gydymffurfio ag unrhyw reolau neu reoliadau newydd.

Ymateb: Derbyn

Bydd unrhyw newidiadau i'r polisi yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn a bydd y rhai dan sylw a'r cyhoedd yn ehangach yn cael eu hysbysu o hyn i sicrhau cydymffurfiaeth.

Argymhelliad 5

Wrth ystyried gwaharddiad ar rasio milgwn, dylai Llywodraeth Cymru hefyd edrych ar chwaraeon eraill lle mae anifeiliaid yn cystadlu.

Ymateb: Gwrthod

Mae pwysigrwydd safonau lles rhagorol ar gyfer anifeiliaid yng Nghymru yn ymestyn i bob anifail. Mae ein Cynllun Lles Anifeiliaid Cymru 2021-26 yn cynnwys fframwaith ar gyfer gwireddu pedwar ymrwymiad lles anifeiliaid y Rhaglen Lywodraethu. Mae hefyd yn amlinellu sut y byddwn yn integreiddio ystod eang o waith polisi parhaus ar les anifeiliaid, gan gynnwys canllawiau statudol ar gyfer Rheoliadau presennol, trwyddedu arddangosfeydd anifeiliaid, microsglodynnu cŵn a chathod, lles anifeiliaid wrth eu cludo a Chodau Ymarfer.

Mae'r angen i adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol o ran lles anifeiliaid hefyd yn cael ei gydnabod. Er bod gennym rhywfaint o hyblygrwydd pe bai angen camau polisi newydd, nid oes lle o fewn yr ymrwymadau presennol i ymestyn y gwaith hwn i edrych ar wahardd chwaraeon eraill lle mae anifeiliaid yn cystadlu.

Lesley Griffiths AC

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd